

# Safbwyntiau

Effaith Negyddol
Gwelliant

## Bwriad Dysgu

- Dysgu i werthuso eu barn eu hunain a barn pobl eraill mewn modd sy'n hwy.

## Sgiliau Cwricwlwm Cenedlaethol

**Saesneg** Cyfathrebu, yn glir ac yn hyderus, gan fynegi barn ac addasu'r sgwrs yn ôl diben a chynulleidfa, gan ddefnyddio ystum, goslef a chywair yn briodol i gynnwys y dysgwr.

## Amlinelliad o’r Gweithgaredd

- Trafod problemau mae'r plant yn gwybod amdanynt yn eu bro.
- Cyflwyno'r sefyllfa - dangos y 'toriad o bapur newydd’
- Trafod gyda'r plant yr hyn ddylai ddigwydd yn eu barn hwy.
- Sesiwn tasgu syniadau, gyda dadleuon o blaid y datblygiad ac yn ei erbyn.
- Cyflwyno'r safbwyntiau gwahanol.
- Gallech ddefnyddio chwarae rôl mewn grwpiau o 4 i 5.
- Beth am ddefnyddio'r safbwyntiau i ddatblygu syniadau ar gyfer ysgrifennu perswadiol neu greu posteri?

## Adnoddau

Yr adroddiad papur newydd.

Taflenni safbwyntiau cymeriadau.

NPT Biodiversity
It's our nature
Ein natur ni
Bioamrywiaeth CNPT

# Safbwyntiau

## Amlinelliad o’r Wers

- Tynnu sylw pawb at yr adroddiad o'r papur newydd.
- Trafod y cynnig
- Gofyn am eu barn.
- Trafod syniadau'r disgyblion, gan nodi unrhyw gyfraniadau diddorol.
- Darllen safbwyntiau’r cymeriadau gyda’r disgyblion.
- Gallech rannu'r dosbarth yn grwpiau ac actio cyfarfod tref.
- Gallech rannu'r dosbarth yn grwpiau gan ofyn i bob grŵp drafod yr hyn maent yn ei gredu.
- Annog y disgyblion i lunio cynllun gweithredu i ddatrys y mater. Beth fyddent yn ei ysgrifennu at bob cymeriad? Beth fyddent yn ei ddweud?



# Rhywbeth i gnoi cil arno!

Mae ysgolion yn debygol o fod yn anhapus ynghylch canllawiau newydd sy'n argymell na ddylid adeiladu unrhyw byllau newydd, a dylid llenwi'r rhai sydd gan ysgolion ar hyn o bryd.

Daeth y canllawiau i rym fel rhan o gynllun iechyd a diogelwch newydd gan yr Asiantaeth Atal Damweiniau, sy'n ofni, mae'n debyg, y bydd achosion llys yn cynyddu ar ran rhieni sy'n anhapus bod eu plentyn wedi cael ei anafu wrth ddefnyddio pwll yr ysgol leol.

"Dylai ysgolion ddysgu'r cwricwlwm mewn ffyrdd eraill. Mae pyllau ysgolion yn sicr o achosi damwain. Dim ond mater o amser yw hi," meddai Mr Fairhurst, arbenigwr iechyd a diogelwch.

Atebodd pennaeth ysgol gynradd leol, "Nid yw'n plant yn cael mynd allan i chwarae a mwynhau'r bywyd gwyllt o'u cwmpas bellach. Gobeithio y bydd yr asiantaeth yn ailystyried eu syniadau."

Mynegodd mudiadau gwarchodaeth eu siom wrth glywed y newyddion: "Nid oes unrhyw reswm pam na all pyllau fod yn lleoedd diogel i blant a bywyd gwyllt. Os yw'r pyllau hyn yn cael eu llenwi, bydd amrywiaeth enfawr o greaduriaid a phlanhigion diddorol yn colli eu cynefinoedd."

Mae canllawiau pellach yn debygol o gael eu rhyddhau yn y dyfodol agos, a fydd yn awgrymu y dylid llenwi pyllau bach eraill ledled y wlad hefyd.







Mrs Perks - Athrawes ysgol gynradd leol

Mae'r plant yn fy nosbarth yn dwlu ar chwilio am greaduriaid ym mhwll ein hysgol. Rydym mor lwcus bod gennym bwll yn ein gardd gefn! Mae'r disgyblion i gyd yn ofalus ac yn gwybod i beidio â mynd yn agos at y pwll oni bai bod athro gyda nhw. Rwy'n mwynhau dysgu'r plant am y pethau sy'n byw yn ein pwll!



Mrs Blackwood - Uned Bioamrywiaeth CNPT

Tybed faint o ystyriaeth sydd wedi cael ei rhoi i'r bywyd gwyllt yn yr ardal. Os yw pobl yn dechrau llenwi pyllau, bydd yn tarfu ar yr anifeiliaid sy'n byw yno eisoes. Rwy'n ansicr ynglŷn â'r cynllun i lenwi pyllau lleol, ond gallwch fod yn siŵr y byddai pryderon gan yr Uned Bioamrywiaeth.



Mr Lockey - Tad pryderus

Yn bersonol, ryw'n ansicr ynghylch yr angen am bwll yn yr ysgol leol. Pe byddai fy meibion i yn cwympo i'r pwll ac yn cael anaf, gallwch warantu y byddai'r *cyngor* mewn llawer o ddŵr poeth! Oni ddylai plant ddysgu yn *yr ystafell ddosbarth* beth bynnag?



Mr Morely - Pennaeth lleol

Dyna syniad twp! Mae gennym berthynas wych gyda'n holl rieni. Mae pwll yr ysgol yn ffordd ardderchog o ddysgu plant am fioamrywiaeth leol ac mae'n disgyblion i gyd yn dangos parch at y pwll, o'r plentyn ifancaf yn y dosbarth meithrin, yr holl ffordd i Flwyddyn 6.

Mae'n debyg bod pwynt gan yr arbenigwyr iechyd a diogelwch. Fyddwn i ddim eisiau i fy merch fach frifo ei hun ym mhwll yr ysgol. Ydy'n cael ei oruchwylio drwy'r amser tybed? Ydy'r plant yn dysgu mwy am fioamrywiaeth leol fel hyn? Dw i ddim yn siŵr, ond byddai'n well gyda fi tase'r plant yn gwneud eu gwersi yn yr ystafell ddosbarth.



Mrs Holmes -rhiant



Mr Fairhurst - Arbenigwr iechyd a diogelwch

Yn yr hinsawdd bresennol, byddai'n annerbyniol os yw plant yn cwympo i byllau ysgol ac yn anafu eu hunain. Byddai'n rhaid i'r ysgolion dderbyn cyfrifoldeb llawn am y mater hwn. Ni allaf ddweud a fyddwn yn llenwi pyllau bach yn ein hardal leol - bydd rhaid i ni gasglu mwy o ffigyrau am hynny.

# Taflen Asesu

**Tasg**

| |
|---|
| |

**Sgil Targed**
Ysgrifennu mewn modd sy'n cyflwyno gwybodaeth ac yn darbwyllo, drwy amrywiaeth o ddulliau perswadiol.

| | **Hyderus** | **Wedi ceisio** | **Ansicr** |
|---|---|---|---|
| Ydw i wedi ymgynghori ag amrywiaeth o adnoddau i ddod o hyd i enghreifftiau o ddulliau perswadiol? (llyfrau, cylchgronau, posteri) | | | |
| Ydw i wedi defnyddio'r hyn a ddysgais am iaith berswadiol wrth ysgrifennu? | | | |
| Ydw i wedi defnyddio unrhyw ddulliau perswadiol?<br><br>Pa ddulliau perswadiol ydw i wedi eu defnyddio?  Gwnewch restr yma: | | | |
| Ydw i wedi cynnwys y ffeithiau am y cynnig? | | | |
| Ydw i wedi cynnwys barn pobl? | | | |
| Ydy fy mhoster neu fy llythyr yn cyflwyno gwybodaeth ac yn darbwyllo? | | | |
| Ydw i wedi cynnwys delweddau trawiadol? | | | |